

Atebolrwydd Eilaidd: penderfyniadau cyhuddo ar y prif droseddwr a'r affeithwyr

Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu sut dylid mynd i'r afael â phenderfyniadau cyhuddo mewn achosion sy'n cynnwys personau sy'n cynorthwyo neu annog person arall i gyflawni trosedd. Gelwir y personau hyn yn affeithwyr neu'n bartïon eilaidd.

Mae'n mynd i'r afael yn benodol â'r canlynol:

- Y gyfraith ar atebolrwydd eilaidd yn dilyn y penderfyniad yn *R v Jogee: Ruddock v Y Frenhines* [2016] UKSC 8; UKPC 7.
- Diddymu "atebolrwydd affeithiwr parasitig" fel sail am atebolrwydd troseddol.
- Atebolrwydd affeithiwr yn seiliedig ar fwriad amodol.
- Gwerth tystiolaethol cysylltiad a phresenoldeb.
- Gwerth tystiolaethol gwybodaeth affeithiwr o arfau.
- Sut i ddewis cyhuddiadau sy'n cynnwys prif atebolrwydd, atebolrwydd eilaidd ac atebolrwydd cychwynol.
- Yr ymagwedd at gyhuddo ymosodiadau grŵp, gan gynnwys achosion o lofruddiaeth a dynladdiad.
- Cyhuddo o drosedd o dan Ddeddf Troseddu Difrifol 2007.
- Cofnodi'r sail am benderfyniadau cyhuddo.

I'r graddau y mae'r arweiniad hwn yn ceisio amlinellu'r gyfraith ar atebolrwydd eilaidd, yr hyn mae'n ei amlinellu yw dealltwriaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron, sydd ddim yn meddu ar rym y gyfraith.

Mae'r arweiniad interim hwn yn amodol ar ymgynghori. Mae'n disodli'r arweiniad blaenorol ar Weithredu ar y Cyd a daw i rym ar unwaith.

Y partïon i drosedd

Ble mae dau berson neu fwy yn rhan o drosedd, gall y partïon i'r drosedd fod yn brif droseddwr (D1) neu'n bartïon eilaidd (affeithwyr / cyd-droseddwr) (D2).

Prif droseddwr yw'r un sy'n cyflawni'r drosedd wirioneddol h.y sy'n perfformio actus reus y drosedd gyda'r mens rea gofynnol. Os oes dau berson neu fwy yn gwneud hynny, maen nhw'n brif droseddwr ar y cyd.

Parti eilaidd yw'r un sy'n cynorthwyo, ategu, cynghori neu gaffael (fe'u gelwir yn aml yn gymhorthion neu'n anogwyr) D1 i gyflawni'r drosedd wirioneddol, heb fod yn brif

droseddwr. Fodd bynnag, gellir erlyn a chosbi parti eilaidd fel pe bai'n brif droseddwr: a8 Deddf Cymhorthion a Chyd-droseddwyr 1861.

Mae atebolrwydd eilaidd yn cynnwys achosion o gytundeb rhwng y prif droseddwr a'r parti eilaidd, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt.

Gellir gweithredu egwyddorion atebolrwydd gyda'r mwyafrif o droseddau. Mae'r egwyddorion yn parhau'r un fath, beth bynnag y drosedd dan sylw. Defnyddir yr egwyddorion yn aml mewn troseddau o drais, dwyn, twyll neu'r drefn gyhoeddus.

R v Jogee

Yn achos *R v Jogee; Ruddock v Y Frenhines* [2016] UKSC 8; UKPC 7, fe aeth y Goruchaf Lys a'r Cyfrin Gyngor i'r afael â gwerseb ddadleuol "atebolrwydd affeithiwr parasitig" (PAL). Ble roedd PAL yn berthnasol, os aeth dau berson (D1 a D2) ati i gyflawni trosedd A, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bod D1 yn cyflawni trosedd B, Byddai D2 yn euog o fod yn affeithiwr i drosedd B os oedd wedi rhagweld y posibilrwydd y gallai D1 ymddwyn fel y gwnaeth.

Crisialwyd y werseb yn *R v Powell; R v English* [1999] 1 AC 1, a fabwysiadodd y rhesymeg yn *R v Chan Wing-Siu* [1985] AC 168. Cynhaliodd y Llys yn *R v Jogee* bod *Chan Wing-Siu* wedi cymryd troad anghywir a'i bod wedi gwneud camgymeriad, gan ei fod yn cyfateb â rhagweld gyda'r bwriad o gynorthwyo. Yr ymagwedd gywir yw trin rhagwelediad fel tystiolaeth o fwriad o i gynorthwyo D1 yn nhrosedd B. Er bod rhagwelediad weithiau'n dystiolaeth bwerus o fwriad, nid yw'n bendant yn ei brofi [66 a 87].

Yn dilyn *R v Jogee*, nid yw PAL bellach yn berthnasol fel sail ar gyfer atebolrwydd troseddol. Mewn achlysuron ble roedd PAL yn berthnasol yn flaenorol, bydd yr egwyddorion sy'n berthnasol i bob achos o atebolrwydd eilaidd bellach yn berthnasol: gweler yr adran isod ar "Egwyddorion atebolrwydd eilaidd" ac, yn benodol, paragraffau 92-94 o *R v Jogee* sy'n sôn am achosion o fwriad amodol.

Ceisiadau am gopiâu papur ar gyfer apêl yn dilyn R v Jogee

Gall erlynwyr dderbyn ceisiadau am gopiâu o bapurau erlyn gan bersonau sy'n ceisio caniatâd arbennig i apelio allan o amser ar sail y penderfyniad yn *R v Jogee*

Wrth ystyried ceisiadau o'r fath, dylai erlynwyr dalu sylw i'r egwyddorion perthnasol a'r cyfraith achos a nodir ar Casework Hub.

Egwyddorion atebolrwydd eilaidd

Amlinellodd y Llys yn *R v Jogee* yr egwyddorion hanfodol sy'n berthnasol i bob achos o atebolrwydd eilaidd.

Dylai erlynwyr fod yn gwbl gyfarwydd gyda'r dyfarniad yn *R v Jogee*, yn benodol gyda'r egwyddorion a amlinellir ym mharagraffau 8-12, 14-16 a 88-99. Ceir

amlinelliad o'r prif bwyntiau i'w nodi isod. Darperir yr is-benawdau er mwyn cyfeirio'n hawdd at y pwyntiau ac nid ydynt yn rhan o'r dyfarniad.

Actus reus

- Rhaid i D2 annog neu gynorthwyo cyflawniad y drosedd gan D1 [8].

Mens rea

- Rhaid i D2 fod â'r bwriad i annog neu gynorthwyo cyflawniad y drosedd, gyda gwybodaeth o unrhyw ffeithiau angenrheidiol i roi nodwedd droseddol i ymddygiad/ymddygiad arfaethedig D1. Mae hyn hefyd yn berthnasol ble nad oes angen mens rea ar gyfer y drosedd a gyhuddir. [9, 16 a 99] Er enghraifft, does dim gofyniad i brofi mens rea yn erbyn D1 mewn perthynas ag oedran y plentyn ar gyfer troseddau rhywiol yn erbyn plant o dan 13, o dan aa5-8 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003; ond mae D2 angen mens rea oherwydd oedran y plentyn.
- Os yw trosedd D1 yn gofyn am fwriad penodol, yna rhaid i D2 fwriadu cynorthwyo/annog D1 i weithredu'r gyda'r bwriad hwnnw. Er enghraifft, os yw D2 yn annog D1 i gymryd beic V heb ganiatâd a'i dychwelyd nes ymlaen, ond bod D1 yn ei gadw, er y bydd D1 yn euog o ladrad, mae D2 yn euog o gymryd heb awdurdod yn unig, oherwydd nid yw D2 wedi annod D1 i weithredu gyda'r bwriad o amddifadu rhywun o rywbeth yn barhaol. [10 & 90]
- Weithiau, bydd y bwriad i gynorthwyo/annog D1 i weithredu gyda bwriad penodol yn cyd-fynd â'r ffeithiau gyda bwriad gan D2 y bydd y drosedd yn cael ei gyflawni, megis mewn ymosodiad corfforol ar y cyd: yn aml ni fydd modd llunio gwahaniaeth rhwng bwriad gan D2 i gynorthwyo D1 i weithredu gyda'r bwriad o achosi o leiaf niwed corfforol difrifol a gyda D2 yn cael y bwriad ei hun y bydd niwed o'r fath yn cael ei achosi. Ond, fel mater o gyfraith, mae'n ddigon bod D2 yn bwriadu cynorthwyo D1 i weithredu gyda'r bwriad gofynnol h.y. nid oes rhaid i D2 fwriadu ar gyfer y goblygiadau troseddol, niwed corfforol difrifol yn yr achos hwn, i ddigwydd. [10 & 90]
- Efallai bydd D2 yn fwriadol yn cynorthwyo neu annog D1 i gyflawni un o ystod o droseddau posib a bydd hyn yn ddigonol os yw trosedd derfynol D1 o fewn yr ystod honno: gweler *Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon v Maxwell* [1978] 1 W.L.R. 1350 HL, ble roedd D2, aelod o fudiad o derfysgwyr, yn atebol fel cyd-droseddwr am dywys y car a oedd yn mynd â nifer o ddynion i gyflawni ymosodiad treisgar. Er nid oedd yn gwybod union fodd yr ymosodiad eu bod am wneud (saethu, bomio ayyb), roedd yn bwriadu eu cynorthwyo i wneud hynny. [14 - 15]

Cysylltiad a phresenoldeb

- Mae cysylltiad rhwng D2 a D1 a phresenoldeb D2 yn y lleoliad yn gallu cynnwys cymorth neu anogaeth neu beidio. Mae rhifau yn aml yn bwysig, oherwydd bod y rhan fwyaf o bobl yn ddewrach gyda chefnogaeth neu gryfder

pobl eraill. Gweler yr adran isod ar "Gyfranogiad" am drafodaeth bellach ar gysylltiad a phresenoldeb.

Achosiaeth

- Nid oes angen profi bod ymddygiad D2 mewn gwirionedd wedi annog neu gynorthwyo D1. Er enghraifft, os oes nifer o bersonau'n annog D1, ni ellir profi bod anogaeth un ohonynt yn benodol wedi gwneud gwahaniaeth; neu fe all D1 anwybyddu'r anogaeth. [12]

Cytundeb

- Mae atebolrwydd eilaidd yn cynnwys achosion o gytundeb rhwng y prif barti a'r parti eilaidd, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt. Nid oes angen profi unrhyw gytundeb rhwng D1 a D2 i gyflawni trosedd. Ble, fodd bynnag, ei fod yn bodoli, mae unrhyw gytundeb o'r fath oherwydd ei natur yn ffurfio o anogaeth ac yn y mwyafrif o achosion, fe fydd hefyd yn cynnwys gweithrediadau o gymorth. [17, 78]

Adnabod y prif bartïon a'r partiön eilaidd

- Ble nad yw'n bosib profi a yw diffynnydd penodol yn brif droseddwr neu'n affeithiwr, mae'n ddigonol i brofi bod y diffynnydd penodol wedi cymryd rhan yn y drosedd mewn un modd neu'r llall. [88]

Bwriad amodol

- Gall bwriad D2 i gynorthwyo D1, a bwriad D2 bod y drosedd yn cael ei chyflawni, fod yn amodol, megis pan fo grŵp o ddynion yn wynebu grŵp gwrthwynebus gyda'r gobaiith bod y gwrthwynebwyr yn sleifio i ffwrdd, ond gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol difrifol o leiaf os oes gwrthwynebiad. [92]
- Gellir profi bwriad, gan gynnwys bwriad amodol, trwy gasglu gwybodaeth o ffeithiau ac amgylchiadau eraill. Esiampyl yw pan fo D2 ac eraill yn bwriadu cyflawni trosedd A, ond yn rhannu bwriad neu amcan ar y cyd, os daw i hynny, i gyflawni trosedd B. Mewn achos o'r fath, byddai gofyn i reithgor ystyried a oedd gweithred D1 o fewn cwmpas y cyd-weithred, neu a oedd D2 wedi cytuno naill ai'n ffurfiol neu'n ddistaw i gynllun a oedd yn cynnwys D1 yn mynd cyn belled, a chyflawni trosedd B, pe byddai'r sefyllfa'n codi. [93]

Rhagweladwyedd fel tystiolaeth o fwriad amodol

- Os yw'r rheithgor yn fodlon bod yna amcan cyffredin cytûn i gyflawni trosedd A, ac os yw'n fodlon hefyd bod rhaid bod D2 wedi rhagweld, yn ystod cyflawni trosedd A, bod yna bosibilrwydd y byddai D1 yn cyflawni trosedd B, gall fod yn gyfiawn mewn achosion priodol i ddod i'r casgliad bod gan D2 y bwriad amodol angenrheidiol y dylid cyflawni trosedd B (neu fwriad i annog neu gynorthwyo trosedd B), pe byddai'r sefyllfa'n codi; neu mewn geiriau eraill, ei

bod o fewn cwmpas y cynllun yr oedd D2 wedi cytuno a rhoi ei gefnogaeth fwriadol iddo. Bydd hwn yn gwestiwn o ffaith i'r rheithgor. [94]

Trais aml-berson digymell

- Nid yw atebolrwydd y parti eilaidd yn dibynnu ar ryw fath o gytundeb, yn ffurfiol neu ddistaw. Felly, mewn achosion o drais aml-berson digymell, os yw D2 yn ymuno â grŵp y mae'n sylweddoli sydd allan i greu niwed difrifol, a bod D1 yn gweithredu gyda'r bwriad i achosi niwed corfforol difrifol a marwolaeth, efallai bydd y rheithgor yn casglu bod D2 yn bwriadu annog/cynorthwyo'r weithred fwriadol o niwed corfforol difrifol a/neu wedi bwriadu bod hynny'n digwydd pe byddai angen; ac y bydd D1 a D2 felly'n euog o lofruddiaeth [95]. Gall roi cefnogaeth fwriadol trwy eiriau neu weithrediadau gynnwys presenoldeb cefnogol. [78]

Gweithred ddilynol lethol

- Mewn achosion o ddynladdiad, ni fydd D2 yn dwyn unrhyw gyfrifoldeb troseddol ar gyfer y farwolaeth ble mae wedi cael ei achosi gan "weithred ddilynol lethol" gan y tramgwyddwr, rhywbeth nad oedd unrhyw un yn esgidiau'r diffynnydd wedi ystyried byddai'n gallu digwydd ac sydd o'r fath rinwedd i ddiarddel ei weithrediadau i hanes. [97]
- Ar wahân i achosion o weithred ddilynol lethol, fel arfer ni fydd angen ystyried y cysyniad "ymadawiad sylfaenol". Beth sy'n bwysig yw a fu D2 annog neu gynorthwyo yn y drosedd; nid oes rhaid iddo annog neu gynorthwyo modd penodol o'i chyflawni. [98]

Arfau

- Nid yw nod D2 o gynorthwyo mewn trosedd o drais yn cael ei bennu gan a yw'n gwybod pa fath o arfau sydd gan D1 yn ei feddiant yn unig. Dylai'r tueddiad i ganolbwyntio ar beth roedd D2 yn gwybod o ran pa arfau roedd D1 yn eu cario ildio i archwilio a oedd D2 yn bwriadu cynorthwyo yn y drosedd a gyhuddir. Os mai llofruddiaeth yw'r drosedd honno, yna'r cwestiwn yw a oedd yn bwriadu cynorthwyo'r weithred fwriadol o niwed corfforol difrifol o leiaf, a bydd y cwestiwn hwn yn aml yn cael ei ateb trwy ofyn yn syml a oedd ef ei hun yn bwriadu cyflawni niwed corfforol difrifol o leiaf, [98]
- Yn aml iawn, bydd D2 yn bwriadu cynorthwyo mewn trais gan ddefnyddio pa bynnag arf sydd ar gael. Mewn achosion eraill, efallai bydd yn credu bod gan D1 bar haearn ond mewn gwirionedd mae ganddo gyllell, ond efallai ni fydd y gwahaniaeth yn effeithio o gwbl ar ei fwriad i gynorthwyo, os oes angen, i achosi niwed corfforol difrifol o leiaf. [98] Mewn geiriau eraill, nid yw'r ffaith bod D1 yn defnyddio arf sy'n fwy peryglus nag unrhyw arf roedd D2 wedi ei ystyried y byddai'n ei defnyddio yn negyddu atebolrwydd D2.
- Bydd gwybodaeth neu anwybodaeth bod D1 yn cario arfau'n gyffredinol, neu arf penodol, yn dystiolaeth wrth ystyried beth oedd bwriad D2, a gall fod yn dystiolaeth anorchfygol y naill ffordd neu'r llall, ond tystiolaeth ydyw a dim mwy. [98]

Nodwch fod y llys yn *R v Johnson ac Eraill* [2016] EWCA Crim 1613, wrth ddadansoddi cwmpas y penderfyniad yn *R v Jogee*, wedi cadarnhau bod “gwybodaeth o arf ... yn parhau'n hynod bwysig mewn perthynas â gweithred o fwriad” [5; 82]. Ond, ble mae'r amcan cyffredin yw cyflawni niwed corfforol difrifol, o dan y gyfraith fel yr esboniwyd yn *Jogee*, ni fyddai bellach yn angenrheidiol dangos gwybodaeth D2 o arf penodol, megis cylllell, a'r defnydd posib ohoni. [56iii; 81i; 82]

Dynladdiad

- Ni fydd D2 yn euog o lofruddiaeth ond fe fydd yn euog o ddynladdiad ble:
 - Mae D2 yn barti i ymosodiad treisgar ar berson arall heb fwriad i gynorthwyo i achosi marwolaeth neu niwed ddifrifol iawn, ond bod y trais yn gwaethygu ac yn arwain at farwolaeth.
 - Mae D2 yn cymryd rhan trwy gynorthwyo neu annog mewn unrhyw weithred anghyfreithlon arall y byddai pob person pwylllog a rhesymol yn sylweddoli oedd yn dod gyda'r risg o rywfaent o niwed (nid o reidrydd yn ddifrifol) i berson arall, gyda hyn yn arwain at farwolaeth. Mae'r prawf yn wrthrychol. [96]

Yn *R v Johnson ac Eraill* fe gadarnhaodd y Llys “ar ôl Jogee ... bod collfarn o ddynladdiad ddim yn dibynnu ar wybodaeth o'r arf”. [5]

Cwestiwn 1

A yw'r adran ar *Egwyddorion Atebolrwydd Eilaidd yn mynd i'r afael yn gywir â'r holl brif egwyddorion?*

Tri math o drosedd yn cynnwys mwy nag un parti

Gan ddefnyddio egwyddorion atebolrwydd eilaidd, mae tair ffordd y bydd trosedd yn cynnwys mwy nag un parti fel arfer yn gweithredu, er mae'n bosib bydd y senarios mewn rhai achosion yn gorgyffwrdd:

(1) Ble mae dau berson neu fwy yn ymuno i gyflawni un drosedd, mewn amgylchiadau ble mae pob un ohonynt, yn hanfodol, yn brif droseddwr

Esiamplau

1. Mae D1 a D2 yn cytuno i gyflawni trosedd. Mae pob un yn chwarae rhan wrth gyflawni'r actus reus: gyda'i gilydd maen nhw'n ymosod ar ddynion diogelwch sy'n dosbarthu arian ac yn cymryd yr arian. Mae'r ddau yn atebol ar gyfer y lladrad fel prif droseddwr ar y cyd.
2. Mae D1 a D2 yn mynd ar sbri o ddwyn o siopau gyda'i gilydd, gyda'r ddau'n cymryd nwyddau o siopau heb dalu. Maen nhw'n brif droseddwr ar y cyd.
3. Mae D1 a D2 yn torri i mewn i dŷ ac mae'r ddau yn helpu eu hunain i eitemau o eiddo perchennog y tŷ. Mae D1 a D2 yn euog o ladrad fel prif droseddwr.

Yn yr achosion hyn, mae pob chwaraewr wedi perfformio holl elfennau'r drosedd (lladrad neu ddwyn) ei hun. Does dim llawer o anhawster yn codi o ran atebolrwydd D1 a D2 mewn achosion o'r fath.

(2) Ble mae D2 yn cynorthwyo neu'n annog D1 i gyflawni un drosedd

Yn y senario hwn, mae D1, gyda'r mens rea, yn cyflawni'r actus reus ar ei ben ei hun. Mae D2 yn affeithiwr (yn cynorthwyo neu'n annog y drosedd). Nid oes angen i D2 fod yn bresennol yn lleoliad y drosedd. Mae'r ddau yn atebol am y drosedd. Mae D1 yn atebol fel prif droseddwr. Mae atebolrwydd D2 fel parti eilaidd yn seiliedig ar yr egwyddorion amlinellir uchod.

Esiamplau

1. Mae D1 a D2 yn cyflawni lladrad. Mae D1 ar ei ben ei hun yn tresmasu ac yn dwyn o'r lleoliad. Mae D2 yn cynorthwyo neu'n annog D1 trwy yrru D1 i ac o'r lleoliad a/neu drwy gadw llygad am bobl, gan wybod bod D1 yn mynd i gyflawni lladrad. Mae'r ddau yn atebol ar gyfer y lladrad, D1 fel y prif droseddwr, D2 fel affeithiwr .
2. Mae D1 a D2 yn cyflawni gwir niwed corfforol. Mae D1 a D2 yn mynd at V. Mae D1 yn pwnio V, gan achosi anafiadau sy'n gyfystyr â gwir niwed corfforol. Mae D2 yn gweiddi anogaeth i D1 yn ystod yr ymosodiad. Mae D1 yn atebol fel prif droseddwr; mae D2 yn atebol fel affeithiwr, am annog D1.
3. Mae D2 yn darparu D1 ag arf er mwyn i D1 ei defnyddio mewn lladrad. Nid yw D2 yn bresennol pan mae D1 yn cyflawni'r lladrad. Mae D1 yn atebol fel prif droseddwr; mae D2 yn atebol fel affeithiwr.

(3) Ble mae D1 a D2 yn cymryd rhan gyda'r gilydd mewn un drosedd (trosedd A) ac yn ystod y drosedd, mae D1 yn cyflawni ail drosedd (trosedd B)

Yn y senario hwn, gall D2 weithredu fel prif droseddwr neu affeithiwr i drosedd A. Gall D2 hefyd fod yn atebol ar gyfer trosedd B, fel affeithiwr. Bydd atebolrwydd D2 yn dibynnu ar fwriad D2 (a allai fod yn amodol) i annog neu gynorthwyo trosedd B, pe byddai'r angen yn codi. Gall rhagwelediad D2 y gallai D1 gyflawni trosedd B fod yn dystiolaeth o'r bwriad hwn, ond nid yw'n bendant yn ei brofi: gweler paragraffu 66, 87 a 94 o *R v Jogee*.

Esiamplau

1. Mae D1 a D2 yn cyflawni lladrad (trosedd A). Mae D1 yn gweithredu fel prif droseddwr, gan fynd i mewn i'r adeilad a dwyn. Mae D2 yn cynorthwyo ac yn annog D1 trwy gadw llygad am bobl. Fodd bynnag, yn ystod y lladrad, mae D1 yn lladd deiliad y tŷ V, gyda'r bwriad o ladd neu gyflawni niwed difrifol iawn. Mae D1 yn atebol am lofruddiaeth V fel prif droseddwr. Gall D2 hefyd fod yn atebol am lofruddiaeth, fel parti eilaidd, os oedd D2 yn bwriadu neu'n bwriadu'n amodol cyflawni trosedd B, pe bydd y sefyllfa'n codi.

2. Fel yn esiampl 1 uchod, ond bod D2 yn bwriadu neu'n bwriadu'n amodol cyflawni ychydig o niwed (llai na niwed corfforol difrifol) i V, pe byddai'r sefyllfa'n codi. Mae D1 yn atebol am lofruddiaeth V. Mae D2 yn atebol am ddynladdiad.

Nodwch pan fod dau berson yn cael eu cyhuddo ar y cyd o gyflawni trosedd a bod dim tystiolaeth yn pwyntio at un yn fwy na'r llall, a bod dim tystiolaeth eu bod yn gweithredu mewn cytgord, dylai'r rheithgor cael y ddau yn ddieuog: *R v Lane a Lane* (1986) 82 Cr. App. R. 5; *R v Aston a Mason* (1992) 94 Cr. App. R. 180. Yr eithriadau yw darpariaethau perthnasol Deddf Trais yn y Cartref, Troseddu a Dioddefwyr 2004, sy'n creu trosedd o achosi neu ganiatáu marwolaeth neu anaf difrifol plentyn dan oedran 16 oedolyn bregus.

Fodd bynnag, ble gellir dangos rhaid bod y drosedd wedi cael ei chyflawni gan berson yn gweithredu fel prif droseddwr gyda'r llall fel affeithiwr o leiaf, nid fel prif droseddwr ar y cyd, yna mae'r ddau yn atebol er gwaethaf yr analluedd i adnabod y prif droseddwr.

Malais wedi'i drosglwyddo

Mae'r egwyddor o falais wedi'i drosglwyddo yn aml yn cael ei esbonio trwy gyfeirio ar droseddau o drais: os yw D1 yn bwriadu lladd neu wneud niwed corfforol difrifol iawn i V1, ond ei fod yn lladd V2 ar gam yn lle, mae'n euog o lofruddiaeth V2.

Mae'r werseb hon yn berthnasol i bartïon eilaidd: mae D2 yn fwriadol yn cynorthwyo neu'n annog D1 i lofruddio V1 ond mae D1, gyda'r bwriad o ladd V1, yn lladd V2 ar gam yn lle. Mae D2 yn euog o lofruddiaeth V2.

Ni fydd malais wedi'i drosglwyddo yn berthnasol, fodd bynnag, pan fo D1 yn dewis dioddefwr gwahanol i'r un a ragwelwyd neu a fwriadwyd gan D2. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid ystyried cyhuddiad o dan Ddeddf Troseddu Difrifol 2007, neu gyhuddiad o gynllwynio.

Nid yw R v Jogee yn mynd i'r afael â malais a drosglwyddir.

Yn *R v Gnango* [2011] UKSC 59 fe ddefnyddiodd y Goruchaf Lys gyfuniad o egwyddorion y gyfraith gyffredin o atebolrwydd eilaidd a gwerseb y gyfraith gyffredin o falais wedi'i drosglwyddo pan ddyfarnodd: ble mae D1 a D2 yn cael brwydr â gynnuau mewn man cyhoeddus, gyda'r ddau yn bwriadu lladd neu achosi anaf difrifol i'r llall, ond bod gwyliwr diniwed yn cael ei ladd yn y croestaniad, mae D1 a D2 yn atebol am lofruddiaeth anfwriadol V, ni waeth os mai D1 neu D2 sy'n lladd V. Mae'r ddau yn atebol, os ydynt yn cael eu hystyried yn brif droseddwr i'r gweithgaredd ar y cyd o saethu gyda'r bwriad o ladd neu achosi niwed difrifol, neu fel affeithiwr i'r weithred o danio'r ergyd gwn farwol [60-62].

Amodau ar gwmpas atebolrwydd eilaidd

Cyn *R v Jogee*, roedd dau brif amod a oedd yn cyfyngu cwmpas atebolrwydd eilaidd. Nid oedd D2 yn atebol ble:

- mae gweithred D1 yn "sylfaenol yn wahanol" i'r un a ragwelwyd gan D2; neu
- mae D2 yn tynnu'n ôl o'r gyd-weithred cyn cyflawni'r drosedd.

Gweithred ddilynol lethol

Mae R v Jogee yn ei gwneud yn glir y bydd dim angen fel arfer i ystyried cysyniad "ymadawiad sylfaenol", ar wahân i achosion sy'n cynnwys gweithred ddilynol lethol. Beth sy'n bwysig yw a fu D2 annog neu gynorthwyo yn y drosedd; does dim rhaid iddo fod wedi annog neu gynorthwyo modd penodol o'i gyflawni [98]: gweler uchod.

Tynnu'n ôl

Nid yw R v Jogee yn mynd i'r afael yn benodol â'r mater o dynnu'n ôl.

Fodd bynnag, mae'r penderfyniad yn nodi'n glir na fydd D2 yn atebol am weithred D1 "ble roedd unrhyw beth a ddywedwyd neu a wnaethpwyd gan D2 wedi pylu i'r cefndir ... erbyn yr amser o gyflawni'r drosedd. Yn y pen draw, mae'n gwestiwn o ffeithiau a graddau a oedd ymddygiad D2 wedi pellhau cymaint mewn amser, lleoliad neu amgylchiadau o ymddygiad D1 ni fyddai'n realistig ystyried ei fod wedi annog neu gynorthwyo trosedd D1" [12].

Ymddengys fod cyfraith achos gyfredol heb ei heffeithio gan *R v Jogee*:

Ni fydd D2 yn atebol am weithred D1 ble mae D2 yn tynnu'n ôl o'r gyd-weithred cyn cyflawni'r drosedd.

Mae a yw D2 wedi tynnu'n ôl yn gwestiwn o ffeithiau a graddau, bydd yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos, ac mae'n benderfyniad i'r rheithgor.

Ffactorau y gellir eu hystyried, er enghraifft, yw: natur y cymorth a'r anogaeth a roddwyd gan D2; pa mor agos yw cyflawniad y drosedd (er enghraifft, y digwyddiad o'r anaf marwol) ar yr adeg o dynnu'n ôl; a'r weithred y dywed sy'n cyfateb â thynnu'n ôl: *R v O'Flaherty, Ryan a Toussaint* [2004] 2 Cr. App. R. 20, CA.

Yn *R v Rajakumar* [2013] EWCA Crim 1512 dyfarnwyd bod tynnu'n ôl yn alinio'n agos â'r cwestiwn o a ddigwyddodd trosedd B er cynnydd trosedd A.

Dywed rhai achosion bod dim gwahaniaeth rhwng y gofyniad i gyfathrebu tynnu'n ôl yn brydlon, yn effeithiol ac yn ddigamsyniol mewn achosion o drais digymell: *R v Robinson* [2000] EWCA Crim 8; *R v Mitchell a King* [1999] Crim LR 496.

Fodd bynnag, mae *R v Stringer* [2011] EWCA Crim 1396 yn ei gwneud yn glir y gallai fod yna adegau pan fyddai'n anghyfiawn i ystyried gweithred D1 fel un a wnaethpwyd gydag anogaeth neu gymorth D2, yn benodol mewn digwyddiad digymell o drais: ble mae D2 yn dechrau ymuno i ymlid V gyda bwriad gelyniaethus, ond yn sydyn yn meddwl yn well ohono ac yn stopio, byddai'n anghyfiawn bod D2 yn awtomatig yn euog o ba bynnag drais a berwyd i V gan eraill a barhaodd i ymlid V [52-53]. *Noda R v Rajakumar* bod yr hyn sy'n ddigonol i gyfateb â thynnu'n ôl mewn

trais grŵp digymell heb ei gynllunio ddim o reidrwydd yn ddigonol mewn trais grŵp a gynlluniwyd ymlaen llaw.

EsiampI

Mae D1, D2 a D3 yn teithio gyda'i gilydd i ganol dinas gyda'r bwriad o bigo pocedi neu ddwyn o bobl mewn stryd brysur. Ar y ffordd, mae D3 yn penderfynu gadael D1 a D2, yn mynd ei ffordd ei hun ac nid yw'n cwrdd gyda nhw eto/ Ychydig oriau yn ddiweddarach, mae D1 a D2 yn cyflawni troseddau o ladrad a dwyn yng nghanol i ddinas. Mae unrhyw anogaeth wreiddiol a roddodd D3 i D1 a D2 yn cael ei hystyried fel rhywbeth sydd wedi darfod ac felly nid yw D3 yn atebol.

Nodwch ble nad yw diffynnydd yn atebol fel parti eilaidd yn sgil tynnu'n ôl neu os yw unrhyw anogaeth wreiddiol yn cael ei hystyried fel rhywbeth sydd wedi darfod, gall serch hynny fod yn atebol am drosedd gychwynnol, megis cynllwynio, ymgais neu drosedd dan Ran 2 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007: gweler isod.

Troseddau cyhuddadwy ar sail atebolrwydd eilaidd

Gall erlynwyr gychwyn erlyniad dim ond os yw achos yn bodloni'r Prawf Cod Llawn a amlinellir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Mae dau gam i'r prawf hwn: y cyntaf yw'r gofyniad am dystiolaeth ddigonol ac mae'r ail yn cynnwys ystyried diddordeb y cyhoedd.

Y cam tystiolaethol

Mae'r cam tystiolaethol o'r Prawf Cod Llawn yn berthnasol yn yr un modd i achosion sy'n cynnwys atebolrwydd eilaidd fel y mae i bob achos arall.

Wrth asesu digonolrwydd y dystiolaeth mewn achos sy'n cynnwys mwy nag un troseddwr, mae erlynwyr yn debygol o ofyn nifer o'r cwestiynau canlynol:

- A oes tystiolaeth bod y diffynyddion wedi gweithredu fel prif droseddwr ar y cyd?
- Os na, a fu D2 annog neu gynorthwyo D1 i gyflawni trosedd, gyda'r bwriad gofynnol?
- Neu, a fu D2 gynorthwyo neu annog D1 i gyflawni trosedd A, gyda'r bwriad neu fwriad amodol y dylid cyflawni trosedd B, pe byddai'r sefyllfa'n codi?
- A oes gan D honiad dichonadwy i fod wedi tynnu'n ôl o'r cyd-fenter? Nodwch os oedd ymddygiad D2 wedi'i ei bellhau cymaint o ran amser, lleoliad neu amgylchiadau o' ymddygiad D1, efallai ni fydd yn realistig ystyried bod hynny wedi annog neu gynorthwyo trosedd D1.
- A oedd gweithred D1 yn weithred ddilynol lethol y gallai neb yn sefyllfa D2 fod wedi ei ragweld? Os felly, ni fydd gan D2 unrhyw atebolrwydd troseddol.

Dylai erlynwyr arfer gofal penodol wrth asesu'r cwestiynau uchod mewn achosion sy'n cynnwys:

- Digwyddiad digymell o drais yn cynnwys mwy nag un person; a

- Phobl ifanc a'r sawl a ddrwgdybir os ydynt ag anhwylder meddwl.

Achosion o fwriad amodol

Achos o fwriad amodol yw un pan fo D2 yn amodol yn bwriadu cynorthwyo neu annog trosedd y bydd yn digwydd, neu sy'n debygol iawn o ddigwydd, pe bydd yr angen yn codi [*R v Jogee* 92-94].

Mae R v Jogee yn esbonio er ni ddylid cyfateb rhagwelediad â bwriad, gellir ei drin fel tystiolaeth o fwriad.

Felly, mewn achosion o fwriad amodol (megis pan fo D2 yn amodol yn bwriadu y dylid cyflawni trosedd B, pe bydd y sefyllfa'n codi), gellir casglu bwriad D2 o ffeithiau ac amgylchiadau'r achos, gan gynnwys tystiolaeth bod D2 wedi rhagweld ei bod hi'n debygol y byddai D1 yn cyflawni trosedd B.

Mae R v Jogee yn mynd ymlaen i egluro bod a oedd gan D2 y bwriad amodol angenrheidiol yn gwestiwn i'r rheithgor [94].

Fe wnaeth y Llys yn *R v Anwar* [2016] EWCA Crim 551 yr arsylwadau canlynol mewn perthynas â'r gofynion tystiolaethol ôl *Jogee*:

- Er bod *R v Jogee* "wedi newid mynegiad y mens rea", "bydd yr un ffeithiau a fyddai eisoes wedi cael eu defnyddio i gefnogi'r casgliad o mens rea cyn y penderfyniad yn *Jogee* yn parhau i gael eu defnyddio nawr" [22].
- "Rydym yn ei chael yn anodd rhagweld amgylchiadau ble gallai fod yna achos i'w hateb dan y gyfraith cyn *Jogee* ond, yn sgil sut fynegir y gyfraith nawr, nid yw hynny'n broblem" [20].

Gellir defnyddio'r rhesymeg hon wrth wneud penderfyniadau cyhuddo mewn achosion o fwriad amodol: byddai'r un ffeithiau wedi cael eu defnyddio i gefnogi'r casgliad o mens rea, ac felly penderfyniad cyhuddo, cyn y penderfyniad yn *Jogee* a gellir eu defnyddio yn yr un modd nawr; gall y ffeithiau hyn gynnwys tystiolaeth o ragwelediad, a gellir casglu bwriad o hyn.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall profi bwriad gofynnol D2 fod yn broblemus, megis pan fo D2 wedi rhagweld posibilrwydd bach yn unig y gallai D1 gyflawni trosedd B. Mewn achosion o'r fath, dylai erlynwyr ystyried yn ofalus a yw'r dystiolaeth o ragwelediad, ynghyd â thystiolaeth arall yn yr achos, yn ddigonol i profi bwriad a chyhuddo D2 gyda'r drosedd dan sylw, neu gyda throsedd llai neu dim trosedd o gwbl. Os yw D2 yn cael ei gyhuddo o'r brif drosedd, gall fod yn briodol i ychwanegu cyhuddiad llai arall i'r cyhuddiad, megis dynladdiad fel dewis arall i lofruddiaeth. Bydd hyn yn caniatáu i'r rheithgor benderfynu a yw D2 yn atebol yn droseddol am y drosedd fwy difrifol, neu'r drosedd llai yn unig. Gweler yr adran "Dethol cyhuddiadau".

Mewn achosion ble mae'r erlyniad yn dibynnu ar dystiolaeth o ragwelediad D2 i profi bwriad D2, dylai dadleuwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron wrthsefyll unrhyw gyflwyniadau o ddim achos i'w ateb yn seiliedig ar ddadl bod y rhagwelediad yn

annigonol. Mae'r mater hwn yn gwestiwn o ffaith ar gyfer y rheithgor a gellir dibynnu ar *R v Jogee* [94] a *R v Anwar* [20, 22].

Cwestiwn 2

A yw'r adran ar achosion o fwriad amodol yn darparu arweiniad clir sy'n adlewyrchu'n glir y gyfraith ôl-Jogee?

Cyfranogiad

Y mater byw mewn achos o fenter ar y cyd yn aml yw a yw D2 wedi cyfranogi yn y fenter. Bydd hyn yn cynnwys profi bod D2 trwy eiriau neu ymddygiad wedi cynorthwyo neu annog D1, gyda'r bwriad gofynnol. Nid yw atebolrwydd yn dibynnu ar bresenoldeb D2 yn lleoliad y drosedd.

Aeth y Llys yn *R v Jogee* i'r afael â'r ddwy sefyllfa rheolaidd sy'n gallu achosi anhawster wrth asesu a yw D2 wedi cyfranogi mewn trosedd: presenoldeb yn lleoliad y drosedd a chyswllt rhwng D2 a D1. Yn dilyn ychydig o gamddealltwriaeth cyhoeddus, fe ailadroddod bod gan euogrwydd trwy gyswllt neu euogrwydd trwy bresenoldeb syml dim rhan go iawn yn y gyfraith gyffredin [77].

Yn yr un modd, ni fydd y dystiolaeth ganlynol yn unig yn bodloni'r cam tystiolaethol:

- Presenoldeb ar gam yn lleoliad y drosedd.
- Cyswllt gyda'r prif droseddwr/droseddwr.
- Cyswllt gyda neu aelodaeth o grŵp neu gang.

Fodd bynnag, fe esboniodd y Llys bod cyswllt a phresenoldeb weithiau'n cynnwys cymorth neu anogaeth gan D2; bydd yn dibynnu ar ddadansoddiad o ffeithiau'r achos:

Mae cyswllt a phresenoldeb yn debygol o fod yn dystiolaeth berthnasol iawn ar y cwestiwn a ddarparwyd cymorth neu anogaeth. Mae rhifau yn aml yn bwysig. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ddewrach gyda chefnogaeth neu gryfder pobl eraill nag pan maen nhw ar eu pennau eu hunain. Ac mae rhywbeth sy'n cael ei wneud gan grŵp yn aml lawer mwy effeithiol na'r un peth wedi'i wneud gan unigolyn. Mae llawer iawn o droseddau, yn enwedig rhai o drais gwirioneddol neu fygythiad o drais, boed wedi'u cynllunio neu'n ddigymell, mewn gwirionedd wedi'u hannog neu eu cynorthwyo gan y cefnogwyr sy'n bresennol gyda'r prif droseddwr gan ychwanegu grym i'r hyn mae'n ei wneud. Serch hynny, nid yw cyswllt neu bresenoldeb o reidrwydd yn dystiolaeth o gymorth neu anogaeth; mae'n dibynnu ar y ffeithiau.[11]

Esiamplau o bresenoldeb yn y safle

Esiamplau ble gallai presenoldeb D gyfateb i gymorth neu anogaeth:

1. Mae D1 yn treisio V. Mae D2 a D3 yn clywed V yn sgrechian ac yn mynd i mewn i'r ystafell ble mae'r trais yn digwydd. Nid ydynt yn darparu cymorth corfforol uniongyrchol, er enghraifft trwy ddal V i lawr; na chwaith yn darparu anogaeth ar lafar. Fodd bynnag, maen nhw'n aros yn yr ystafell, yn gweld y trais yn gwneud dim yn ei erbyn, pan mae ganddynt y pŵer i wneud hynny, neu o leiaf mynegi

anghytundeb. Gan ddibynnu ar holl amgylchiadau'r achos, gall bresenoldeb D2 a D3 fod yn dystiolaeth fod y ddau ohonynt ar wahân wedi annog y trais, ac wedi bwriadu gwneud hynny. Noder fod rhaid profi bod D2/D3 yn bwriadu annog; os yw D2/D3 yn syml yn arsylwi'r sefyllfa yn rhinwedd llygadwr, efallai nad ydynt yn bwriadu annog D1, er eu bod mewn gwirionedd yn annog D1. Gweler *R v Clarkson ac Eraill* (1971) 55 Cr. App. R. 445.

2. Mae dau aelod o gang yn cwrdd mewn stryd gefn am frwydr a drefnwyd ymlaen llaw. Gan ddibynnu ar holl amgylchiadau'r achos, mae presenoldeb y sawl sy'n mynychu'r frwydr yn gallu gweithredu fel anogaeth i'r cyfranogwyr yn y frwydr. Rhaid profi mewn perthynas â phob D ar wahân eu bod wedi annog y cyfranogwyr, ac wedi bwriadu rhoi anogaeth.

Esiamplau o gyswllt

Esiamplau ble mae cyswllt neu gysylltiadau D2 gyda D1 neu grŵp neu gang yn gallu llunio rhan o'r dystiolaeth mewn achos:

1. Mae ymglymiad / ymwybyddiaeth flaenorol o gyfathrebiadau gyda chyfranogwyr eraill (e.e postio ar Facebook) yn gallu dangos mai nad gwyliwr heb ddiddordeb ydoedd, yn digwydd bod yn safle'r drosedd, a thrwy ei bresenoldeb ei fod yn bwriadu cynorthwyo neu annog D1 i gyflawni'r drosedd.

2. Mae cyswllt D2 gyda D1 a'i wybodaeth o dueddiad D1 at ymddygiad troseddol treisgar yn gallu bod yn dystiolaeth bod gan D2 y bwriad angenrheidiol neu fwriad amodol y dylai D1, yn ystod y lladrad, ymosod ar V, pe byddai D1 yn cael ei ddal.

3. Gall gyswllt D2 gyda gang a'i wybodaeth o dueddiad aelodau'r gang i gyflawni niwed difrifol iawn / i gario neu ddefnyddio arfau fod yn dystiolaeth a gellir casglu o hyn bod D2 yn gwybod bod aelod/aelodau o'r gang yn dueddol o drais difrifol / o gario arfau a allai fod yn farwol. Bydd gwybodaeth D2 yn dystiolaeth o ran beth oedd bwriad neu fwriad amodol D2 h.y. bwriad i ladd / gwneud niwed difrifol iawn.

Cam diddordeb y cyhoedd

Ble mae digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid i erlynwyr fynd ymlaen i ystyried a oes angen erlyniad yn niddordeb y cyhoedd.

Mae'r Cod yn amlinellu'r ymagwedd y dylid ei chymryd wrth ystyried diddordeb y cyhoedd. Mae'r ymagwedd hon yn berthnasol i'r holl achosion sy'n cynnwys atebolrwydd eilaidd.

Y mwyaf difrifol y drosedd, y mwyaf tebygol yw hi bod angen erlyniad.

O dan baragraff 4.12(b) a (c) o'r Cod, wrth benderfynu ar lefel difrifoldeb y drosedd a gyflawnwyd, dylai erlynwyr ystyried euogrwydd yr un a amheuir a'r niwed a achoswyd i'r dioddefwr. Dylai erlynwyr ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan y dioddefwr am yr effaith a gafwyd gan y drosedd. Mewn achosion priodol, gallai hyn hefyd gynnwys teulu'r dioddefwr.

Yr uchaf yw lefel yr un a amheuir o euogrwydd, y mwyaf tebygol yw hi bod angen erlyniad. Wrth bennu lefel yr euogrwydd, gallai'r ffactorau canlynol fod yn benodol o berthnasol mewn achosion o atebolrwydd eilaidd:

- Lefel ymglymiad yr un a amheuir.
- I ba raddau roedd y troseddu wedi ei fwriadu ymlaen llaw a/neu ei gynllunio (neu a oedd, er enghraifft, yn bwl sydyn digymell o drais).
- Oedran neu aeddfedrwydd yr un a amheuir: rhaid rhoi llawer o ystyriaeth i oedran yr un a amheuir os ydynt yn blentyn neu'n berson ifanc dan 18. Rhaid ystyried diddordebau gorau a lles y plentyn neu berson ifanc gan gynnwys a yw'r erlyniad yn debygol o gael effaith andwyol ar ragolygon y plentyn neu berson ifanc at y dyfodol sy'n anghymesur i ddifrifoldeb neu ddyfalwch y troseddu. Rhaid i erlynwyr ystyried prif nod y system cyfiawnder ieuencid sef atal troseddu gan blant a phobl ifanc. Fel man cychwyn, yr ifancach yr un a amheuir, y llai tebygol yw hi fod angen erlyniad.
- Os yw'r un a amheuir yn dioddef o unrhyw anhwylder meddwl sylweddol neu salwch corfforol, neu oes oedd yn dioddef ar adeg y drosedd.

Mae arweiniad cyfreithiol pellach ar gael mewn perthynas â [Throseddwr ifanc](#) a [Diffynyddion ag anhwylder meddwl](#).

Dewis cyhuddiadau: prif atebolrwydd, atebolrwydd eilaidd ac atebolrwydd cychwynnol

Bydd dewis cyhuddiadau'n cynnwys ystyried diddordeb y cyhoedd wrth erlyn cyhuddiad penodol, cyhuddiad arall, neu dim cyhuddiad o gwbl.

Ym mhob achos, dylai erlynwyr ddewis cyhuddiadau sydd:

- Yn adlewyrchu difrifoldeb ac ystent y troseddu a gefnogir gan y dystiolaeth.
- Yn rhoi pwerau digonol i'r llys i ddedfrydu a gosod gorchmynion ôl-euogfarn priodol.
- Yn galluogi cyflwyno'r achosion mewn modd clir a syml.

Nid oes rhaid i erlynwyr ddewis neu barhau gyda'r cyhuddiad mwyaf difrifol bob tro ble mae yna ddewis.

Ni ddylai erlynwyr byth barhau gyda mwy o gyhuddiadau nag sy'n angenrheidiol gyda'r nod o annog diffynnydd i bledio'n euog i rai ohonynt. Yn yr un modd, ni ddylent byth barhau gyda chyhuddiad mwy difrifol gyda'r nod o annog diffynnydd i bledio'n euog i un llai difrifol.

Mae'r egwyddorion hyn yn arbennig o berthnasol i achosion o atebolrwydd eilaidd, oherwydd gall erlynwyr gael yr opsiwn o gyflwyno cyhuddiad o nifer o wahanol droseddau, ac o gyhuddo'r un a amheuir fel prif droseddwr, fel affeithiwr neu gyda throsedd gychwynnol.

Er mwyn sicrhau bod y cyhuddiadau'n adlewyrchu euogrwydd D, dylai erlynwyr ystyried y ffactor canlynol yn benodol wrth wneud penderfyniadau cyhuddo mewn achosion yn cynnwys mwy nag un troseddwr:

- A oes tystiolaeth bod D wedi gweithredu fel prif droseddwr? Os felly, a ddylid cyhuddo'r un a amheuir fel prif droseddwr.
- Ble nad yw'r dystiolaeth yn pwyntio at D yn gweithredu fel prif droseddwr, a oes tystiolaeth bod D wedi gweithredu fel affeithiwr? Hynny yw, a fu D gynorthwyo neu annog cyflawniad y drosedd mewn rhyw fodd? *Noda R v Jogee* bod cyfranogiad o'r fath yn gallu cymryd sawl ffurf ac y gallai gynnwys darparu cefnogaeth trwy gyfrannu at nifer y bobl mewn cyfwynebiad gelyniaethus [89]. Os oes tystiolaeth bod D wedi cynorthwyo neu annog y drosedd, gyda'r bwriad gofynnol, dylid cyhuddo D fel affeithiwr. Nodwch ble nad yw'n bosib cyhuddo o drosedd gadarn, dylid ystyried trosedd y Ddeddf Troseddu Difrifol neu drosedd gychwynnol arall (gweler yr adrannau ar droseddau'r Ddeddf Troseddu Difrifol ac ar gyhuddo o gynllwynion).
- Ble mae rôl D fel affeithiwr yn fân neu'n ymylol a bod y drosedd dan sylw'n fân drosedd, dylid ystyried a yw cyhuddo D yn niddordeb y cyhoedd o gwbl. Yn benodol, ble mae llys yn debygol o osod cosb enwol ar euogfarn, yn aml ni fydd erlyniad yn niddordeb y cyhoedd: gweler yr arweiniad ar [Fân droseddau](#)
- Ble mae rôl D fel affeithiwr yn fân neu'n ymylol ond bod y drosedd yn un difrifol, dylid ystyried a yw cyhuddiad llai difrifol na'r un a gyhuddwyd yn erbyn y prif droseddwr yn fwy priodol. Er enghraifft, ble mae'r drosedd yn denu dedfryd fandadol neu awtomatig neu leiaf, gellir ystyried bod y cyhuddiad yn anghymesur i euogrwydd D. Ym mwyafrif helaeth yr achosion, mae'n debygol bod cyhuddiad llai difrifol ar gael. Fodd bynnag, yn y digwyddiad annhebygol bod dim cyhuddiad llai ar gael, rhaid i erlynwyr bwysu a mesur yn ofalus y gwerth o barhau gyda chyhuddiad ar gyfer y drosedd ddifrifol, neu o beidio â pharhau o gwbl. Bydd y penderfyniad o ran ble mae diddordeb y cyhoedd yn gorwedd yn dibynnu ar ffeithiau pob achos.
- Os nad yw'n glir a fu D weithredu fel prif droseddwr neu affeithiwr ond bod y dystiolaeth yn dangos ei bod mewn un ffordd neu'r llall, gellir parhau gydag achos yr erlyniad ar sail prif droseddwr / affeithiwr arall, a gellir cyhuddo D fel prif droseddwr, dan a8 Deddf Affeithwyr a Chyd-droseddwyr 1861. Mae'n bosib bydd union rôl D yn dod i'r amlwg yn ystod proses y treial, a gall y barnwr ddedfrydu ar sail hyn. Dylai erlynwyr sicrhau bod ditiad yn cynnwys troseddau amgen sy'n cario cosbau ar gyfer difrifoldeb ymddygiad y sawl a gymerodd ran: gweler *R v Greatrex* [1999] 1 Cr. App. R. 126. Bydd hyn yn galluogi i reithgor euogfarnu D o drosedd llai difrifol, megis anhrefn dreisgar, er enghraifft, ble nad yw'n fodlon bod D yn atebol yn gyfreithiol ar gyfer y drosedd fwy difrifol.
- Ble mae dyfarniadau amgen ar gael i reithgor yn unol ag aa6(2) a (3) Deddf Cyfraith Trosedd 1967, nid oes angen rhoi blaenoriaeth i gyhuddiadau amgen o reidrwydd. Dylai erlynwyr benderfynu yn seiliedig ar ffeithiau achos penodol a fyddai cynnwys cyhuddiad amgen ar y ditiad yn ddefnyddiol i'r rheithgor neu'n tyngu eu sylw.

Rhaid i erlynwyr dalu sylw i unrhyw newid perthnasol yn yr amgylchiadau wrth i'r achos fynd yn ei blaen ar ôl y cyhuddiad. Er enghraifft, os daw rôl D yn glir yn ddiweddarach, gall fod yn briodol addasu'r cyhuddiad neu'r ditiad yn unol â hynny.

Cyhuddo ymosodiadau grŵp

Ble mae marwolaeth neu ymosodiad difrifol yn digwydd dan ddwylo grŵp neu gang, dylai erlynwyr geisio pennu union rôl pob un a amheuir a dewis cyhuddiadau sy'n gwahaniaethu rhwng y rolau.

Fodd bynnag, dylai erlynwyr fod yn ofalus, wrth ddewis cyhuddiadau, i beidio â gorgymhlethu cyflwyniad yr achos. Mae hyn yn cynnwys ystyried cyfeiriadau'r gyfraith y bydd yr ditiad ei angen o ganlyniad.

Mewn achosion o ddynladdiad, nid yw bob tro'n bosib adnabod pwy yw'r llofrudd/llofruddion neu'r prif droseddwr/droseddwyr a phwy yw'r partion eilaidd. Mae *R v Jogee* yn cadarnhau ei bod ddim bob tro'n angenrheidiol profi os mai prif droseddwr neu affeithiwr yw'r diffynnydd [88] (gan gymryd mai'r naill neu'r llall ydyw), ac mewn ymosodiad aml-berson, yn aml ni fydd neb yn gallu dweud llaw pwy gyflawnodd y weithred farwol. Beth sy'n ofynnol yw dangos bod rhywun (os yw'n cael ei adnabod neu beidio) wedi cyflawni llofruddiaeth.

Mewn achosion o'r fath, mae'n dderbyniol erlyn y cyfranogwyr i'r drosedd fel prif droseddwr, heb wahaniaethau rhwng y rolau o reidrwydd. Fodd bynnag, gellir rhoi cyhuddiadau eraill ar y ditiad, i ganiatáu i'r rheithgor euogfarnu D o drosedd llai difrifol, ble nad yw'n fodlon mai D oedd yn gyfrifol am y drosedd llai difrifol.

Mae'r esiampl ganlynol yn dangos sut gellir mynd i'r afael â dewis cyhuddiad yn y math hwn o achos. Bydd y gwir gyhuddiadau a ddewisir yn dibynnu ar y dystiolaeth benodol yn erbyn pob un a amheuir.

Esiampl

Mae Grŵp A yn ymlid grŵp B, ac mae rhywun yn grŵp A yn ymosod ar, ac yn lladd V, sy'n aelod o grŵp B. Mae rhai o grŵp A yn cario ac yn defnyddio cyllyll, mae eraill yn peri niwed heb ddefnyddio arfau. Nid yw'n glir pwy gyflawnodd yr anaf marwol, sef clwyf trywanu i'r galon. Nid yw pob aelod o grŵp A yn bresennol ar adeg yr ymosodiad marwol terfynol, ac ni ymosododd pawb a oedd yn bresennol yn yr ymosodiad terfynol ar V.

Cyhuddiadau posib

- Llofruddiaeth: yn erbyn rhai o grŵp A neu'r grŵp cyfan, ar y sail bod y rheini a gyhuddir:
 - Wedi lladd gyda'r bwriad o ladd neu beri niwed corfforol difrifol; neu
 - Wedi cynorthwyo neu annog yn fwriadol un aelod o'u grŵp neu ragor i ladd neu beri niwed corfforol difrifol yn fwriadol i unrhyw aelod o grŵp B; neu
 - Wedi bwriadu'n amodol i gynorthwyo neu annog un aelod neu fwy o'u grŵp i ladd neu beri niwed corfforol difrifol yn fwriadol i unrhyw aelod o grŵp B, pe byddai'r sefyllfa'n codi h.y. pe byddai unrhyw aelod o grŵp A yn penderfynu gwneud hynny.

Er bod tystiolaeth o wybodaeth D2 bod un neu ragor o'r grŵp yn cario cyllyll yn dystiolaeth o ran bwriad D2, nid yw tystiolaeth o wybodaeth o'r fath yn angenrheidiol er mwyn darparu'r bwriad gofynnol. Yn unol â Deddf 1861, gellir eu cyhuddo fel prif droseddwyr. Mewn achosion ble roddir cyhuddiad o lofruddiaeth ar sail bwriad amodol, neu ble gall fod yn anodd profi bwriad gofynnol D2, gall fod yn briodol rhoi cyhuddiad ychwanegol o ddynladdiad ar y ditiad. Nodwch, mewn achosion priodol bod y barnwr yn debygol o adael dynladdiad fel dyfarniad amgen ar gyfer y rheithgor: os nad yw rheithgor yn fodlon bod D yn euog o lofruddiaeth, gall cael D yn euog o ddynladdiad (a6(2) Deddf Cyfraith Droseddol 1967).

- Dynladdiad: mewn rhan ymosodiadau grŵp yn diweddu gyda marwolaeth V, gall hwn fod yn ddewis arall i lofruddiaeth, ar y sail bod D yn barti i ymosodiad treisgar ar berson arall ond heb y bwriad i gynorthwyo i achosi marwolaeth neu beri niwed difrifol iawn. Gellir rhoi cyhuddiad o ddynladdiad, os oedd gan D y wybodaeth bod un aelod neu ragor o'r grŵp yn cario arf ai peidio.
- Anhrefn treisgar: fel cyhuddiad ychwanegol i lofruddiaeth neu ddynladdiad, er mwyn rhoi cyfle i'r rheithgor rhoi euogfarn o drosedd llai, pe byddant yn rhyddfarnu o drosedd o ddynladdiad.
- Troseddau rhan 2 y Ddeddf Troseddu Difrifol: fel dewis arall i lofruddiaeth, yn erbyn y sawl a anfonodd negeseuon testun neu a bostiodd negeseuon ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, gan annog eraill i ymuno yn yr ymosodiad arfaethedig ar Grŵp B.
- Cynllwynio i achosi niwed corfforol difrifol neu gynllwynio i lofruddio: cyhuddiad ychwanegol yn erbyn y sawl a oedd yn rhan o gynllunio'r ymosodiad ymlaen llaw.

Bydd euogrwydd yn cael ei wahaniaethu ymhellach ar yr adeg o ddedfrydu, pan fydd y barnwr yn ystyried y rôl a chwaraewyd gan D mewn perthynas â'r drosedd/au y mae'n euog ohonynt.

Cyhuddo lofruddiaeth neu ddynladdiad mewn ymosodiadau grŵp heb arf

Mae marwolaethau a achosir gan grwpiau (neu gan unigolion, boed wedi'u hadnabod neu beidio, o fewn grŵp) ble does dim arf farwol yn cael ei chario neu ei defnyddio yn gofyn am ystyriaeth ofalus o mens rea'r cyfranogwyr unigol.

Tra bod dim amheuaeth bod rhywun wedi cyflawni trosedd mewn achosion ble defnyddir arf farwol, mae achosion eraill yn fwy trafferthus. Y mater i'w benderfynu yw a yw o leiaf un person wedi gweithredu gyda'r mens rea am lofruddiaeth h.y. gyda'r bwriad o ladd neu beri niwed corfforol difrifol. Gall anafiadau marwol, mewn rhai achosion, fod yn dystiolaeth o fwriad o'r fath. Mewn achosion eraill, mae'n bosib bod marwolaeth wedi digwydd ble mae bwriad y cyfranogwr/cyfranogwyr yr ymosodiad oedd dim mwy nag achosi mân anafiadau, nid rhai difrifol. Mewn amgylchiadau o'r fath, dynladdiad, nid lofruddiaeth, yw'r cyhuddiad cywir.

Mewn nifer o achosion o'r math hwn, mater canolog fydd a oedd D penodol yn sylweddoli bod y grŵp yn mynd i beri anaf ddifrifol iawn, neu'n bosib iawn o wneud

hynny pe byddai'r sefyllfa'n codi, ac felly gellir dod i'r casgliad o fwriad gofynnol(*Jogge*, 92-95); neu a ymunodd D yn syml mewn ymosodiad treisgar, gan fwriad achosi ychydig o niwed yn unig, ond bod y trais wedi gwaethygu ac arwain at farwolaeth?(*Jogge*, 96)

Mewn achosion o'r fath, wrth asesu'r dystiolaeth, dylai erlynwyr ddilyn yr ymagwedd ganlynol:

1. A oes digon o dystiolaeth bod un o'r ymosodwyr (er heb ei adnabod) wedi cyflawni llofruddiaeth fel prif droseddwr h.y. wedi lladd V gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol difrifol o leiaf? Os na, ni fyddai cyhuddiadau llofruddiaeth yn briodol.

2. Os oes digon o dystiolaeth bod un o'r ymosodwyr wedi cyflawni llofruddiaeth, dylid ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â phob D a gymerodd ran yn y digwyddiad:

A. Llofruddiaeth

- Ai D oedd y llofruddiwr a weithredodd gyda'r bwriad o ladd neu beri niwed corfforol difrifol? neu
- A oedd D yn bwriadu annog neu gynorthwyo'r weithred fwriadol o niwed corfforol difrifol? neu
- A oedd D yn amodol yn bwriadu annog neu gynorthwyo'r weithred fwriadol o niwed corfforol difrifol, pe byddai'r sefyllfa'n codi?

Os felly, llofruddiaeth yw'r gyhuddiad briodol.

B. Dynladdiad

- A oedd D yn bwriadu annog neu gynorthwyo'r weithred o beri ychydig o niwed (nid i'r un graddau â niwed corfforol difrifol)?neu
- A oedd D yn amodol yn bwriadu annog neu gynorthwyo'r weithred o beri ychydig o niwed, pe byddai'r sefyllfa'n codi? neu
- A gymerodd D ran trwy anogaeth neu gynorthwyo mewn unrhyw weithred anghyfreithlon arall y byddai unrhyw berson pwyllog a rhesymol yn sylweddoli oedd yn dod gyda'r risg o ychydig o niwed (ddim o reidrwydd yn ddifrifol) i berson arall?

Os felly, dynladdiad yw'r cyhuddiad briodol.

Gellir hefyd cyflwyno cyhuddiadau o fân droseddau neu droseddau amgen.

Cwestiwn 3

A yw'r adrannau ar gyhuddo ymosodiadau grŵp yn darparu arweiniad clir ar sut i fynd i'r afael â phenderfyniadau cyhuddo mewn achosion o'r fath ôl-*Jogee*?

Cofnodi'r sail am benderfyniadau cyhuddo

Mewn achosion gyda mwy nag un troseddwr, dylid cofnodi'r sail am gyhuddo pob diffynnydd o bob trosedd yn glir yn y penderfyniad cyhuddo, wedi'i gofnodi ar ffurflen MG3. Ble fo'n bosib, dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Os yw D yn cael ei gyhuddo fel prif droseddwr, fel affeithiwr, neu fel naill ai prif droseddwr neu affeithiwr.
- Y rôl a chwaraewyd gan D. Er enghraifft: cynorthwyo neu annog y drosedd; cynorthwyo'r drosedd heb fod yn bresennol yn y lleoliad; achosi'r drosedd.

Dylid cofnodi'r un wybodaeth unrhyw bryd mae'r cyhuddiadau'n cael eu newid yn ystod y gweithrediadau cyfreithiol.

Dylid hefyd gwneud rôl bob D yn glir cyn gynted â phosib yng nghrynodeb yr achos neu'r nodyn agoriadol.

Troseddau Deddf Troseddau Difrifol 2007

Yn Rhan 2 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 (SCA), diddymwyd y drosedd gyfraith gyffredin o dditiad o droseddau o annog neu gynorthwyo troseddu (aa 44-46).

Gan fod troseddau SCA yn gychwynnol yn eu natur (nid oes angen i'r drosedd gadarnhaol ddigwydd), gellir eu defnyddio pan nad yw'n bosib cyhuddo rhywun fel parti eilaidd. Mae'r rhain yn cynnwys y sefyllfaoedd canlynol:

1. Ni chyflawnir trosedd gadarnhaol. Nid yw atebolrwydd eilaidd yn codi.

Esiampl

Mae D2 yn cyflenwi trosol i D1, gan gredu y bydd D1 yn ei defnyddio i gyflawni lladrad. Os nad yw D1 yn cyflawni lladrad, ni all D2 fod yn atebol fel parti eilaidd i'r lladrad. Na chwaith all D2 fod yn atebol am gynllwynio gyda D1 i gyflawni lladrad, oni bai bod yna gytundeb i wneud hynny. Serch hynny, gall D2 gael ei gyhuddo o da a45 SCA, am annog neu gynorthwyo trosedd.

2. Os yw D2 yn gwneud gweithred sy'n gallu annog neu gynorthwyo D1, ond bod y weithred ddim mewn gwirionedd yn darparu anogaeth neu gymorth: does dim cyswllt rhwng gweithred D2 a D1. (Nodwch er bod atebolrwydd eilaidd o bosib ddim angen cyswllt achosol rhwng gweithrediadau D2 a'r drosedd neu ymglymiad D1, mae'n ofynnol bod D2 wedi cynorthwyo neu annog D1.)

Esiampl

Mae D2 yn e-bostio / cyhoeddi neges ar Twitter / yn postio ar Facebook yn annog eraill i gyflawni trosedd neu nifer o droseddau megis troseddau anhrefn cyhoeddus. Nid yw D1 yn darllen cyfathrebiad D2 ond mae'n cyflawni'r drosedd(au) yr anogodd D2 fodd bynnag. Mae D2 yn perfformio acrus reus o drosedd SCA trwy'r weithred o bostio / cyhoeddi neges ar Twitter ayyb, os yw D1 yn derbyn y cyfathrebiad neu'n gweithredu arno ai beidio.

Gellir dod o hyd i arweiniad mwy manwl ar droseddau SCA yn Arweiniad Cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron ar [Droseddau cychwynnol](#)

Cyhuddo troseddau cyfraith gyffredin neu droseddau Deddf Troseddu Difrifol 2007

Er mai cychwynnol yw troseddau'r SCA, mae eu geiriad hefyd yn caniatáu eu defnyddio pan fo trosedd gadarnhaol yn cael ei chyflawni. Felly, mae gorgyffwrdd clir rhwng cyhuddo rhywun fel cyfranogwr eilaidd a throseddau'r SCA.

Dylai erlynwyr fod yn ymwybodol i achosion sy'n cyflwyno'r posibilrwydd o newid naill ai fel cyfranogwr eilaidd neu drosedd SCA.

Nodwch pan fod yna gyhuddiad o drosedd SCA, bod y cosbau yr un fath â'r rheini ar gyfer troseddau cyfeirio y mae D2 yn annog neu gynorthwyo D1 i'w cyflawni: a58 SCA.

Dylid nodi'r canlynol mewn perthynas â'r gorgyffwrdd rhwng cyhuddo naill ai fel cyfranogwr eilaidd neu drosedd SCA:

- Mae D2 yn rhoi cymorth i D1, heb wybod yr union drosedd bydd D1 yn ei chyflawni. Er enghraifft, mae D2 yn gyrru D1 i dafarn, heb wybod pa drosedd mae D1 am gyflawni, llofruddiaeth, lladrad neu drosedd yn erbyn y person. Mae D1 yn llofruddio V. Gellir cyhuddo D2 fel affeithiwr (*R v Jogee* [14-15]; *Cyfarwyddwr Erlyniad Cyhoeddus Gogledd Iwerddon for Northern Ireland v Maxwell*), neu gyda throsedd a46. Fodd bynnag, gellir dadlau bod y mens rea ar gyfer trosedd a46 yn llymach, ac felly'n anoddach i'w brofi:
 - Yn *R v Jogee* esboniodd y llys ei bod yn ddigonol bod y drosedd a gyflawnwyd gan D1 o fewn cwmpas y troseddau posib yr oedd D2 wedi cynorthwyo neu annog D1 yn fwriadol i'w cyflawni;
 - Mae a46 SCA yn ei gwneud yn ofynnol i D2 gredu y bydd un drosedd neu ragor yn cael ei chyflawni (er nid yw'n gwybod pa un). Gweler hefyd a47 am mens rea arall sy'n ofynnol ar gyfer trosedd a46.
- Ble nad yw'r dystiolaeth yn bendant a weithredodd D2 fel prif droseddwr neu affeithiwr, ond rhaid mai'r naill neu'r llall ydyw, gellir ei gyhuddo fel prif droseddwr (gweler uchod); fodd bynnag, fellir hefyd ei gyhuddo o drosedd SCA: mae a46 yn caniatáu cyhuddiad ble gellir profi bod D2 wedi cyflawni'r drosedd gychwynnol neu'r drosedd arfaethedig, ond bod dim modd profi pa un. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid cyhuddo D2 fel prif droseddwr, oherwydd bydd D2 yna'n agored i euogfarn a dedfryd fel prif droseddwr neu affeithiwr, gan ddibynnu ar y dystiolaeth a ddaw i'r amlwg yn ystod yr achos.
- Trwy rinwedd adran 118(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, mae datganiad a wnaed i bartio mewn menter gyffredin yn dderbyniol yn erbyn parti arall i'r fenter fel dystiolaeth o unrhyw fater a nodwyd. Gall dystiolaeth o'r fath gael ei golli os oes cyhuddiad o drosedd SCA.

Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau pan nad yw'n bosib newid trosedd gadarnhaol yn seiliedig ar y dystiolaeth ar gael. Er enghraifft, ble mae gan D2 honiad dilys ei bod ddim yn atebol fel troseddwr eilaidd oherwydd:

- Gweithred ddilynol lethol gan y prif droseddwr; neu
- bod D2 wedi tynnu'n ôl o'r cyd-fenter cyn cyflawnwyd y drosedd; neu fod anogaeth neu gymorth D2 wedi pylu i'r fath raddau o fod yn y cefndir erbyn i D1 gyflawni'r drosedd.

Mewn achosion o'r fath, dylai erlynwr asesu sut mae'r amddiffyniad yn debygol o effeithio ar y rhagolygon o euogfarn. Mewn nifer o sefyllfaoedd, fe fydd yn gywir i gyhuddo D2 fel affeithiwr ac ar gyfer y materion byw hyn i gael eu penderfynu gan y rheithgor. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gall erlynwyr ddod i'r casgliad bod y dystiolaeth yn cefnogi amddiffyniad D2 yn ddigonol, ac felly bod cyhuddiad o drosedd SCA yn fwy priodol (ni fydd atebolrwydd am y drosedd SCA yn cael ei effeithio gan y treigl amser; ac mewn achosion yn cynnwys gweithred ddilynol lethol, gall D2 dal i fod yn atebol am annog neu gynorthwyo trosedd wahanol i'r un a gyflawnwyd gan D1).

Cyhuddiad o drosedd dan a46 Deddf Troseddu Difrifol 2007

Gellir cyhuddo o drosedd dan a46 SCA ble mae D yn gwneud gweithred sy'n gallu annog neu gynorthwyo cyflawniad un drosedd neu ragor, gan gredu y bydd un neu ragor o'r troseddau hynny'n cael eu cyflawni ond heb wybod pa un.

Yn *R v Sadique* [2013] EWCA Crim 1150 dyfarnodd y llys na fod y cyhuddiad y cafodd y diffynnydd ei euogfarnu ohono yn wael oherwydd twyll neu'n ddiffygiol oherwydd ansicrwydd, ond ei bod yn briodol ac yn cwmpo o fewn cwmnasiad cywir trosedd a46. Roedd manylion y cyhuddiad yn honni:

Rhwng diwrnod 1af Ionawr 2009 a 8fed diwrnod Mehefin 2010, fe ddarparodd Omar Sadique amryw gemegau i eraill, gyda'r cyflenwad hwn yn gallu cynorthwyo dwy drosedd neu fwy o gyflenwi/ymwneud â chyflenwi cyffuriau a reolir o ddosbarth A a B, gan gredu y byddai troseddau o'r fath yn cael eu cyflawni ac y byddai'r weithred o gyflenwi'n cynorthwyo gyda chyflawniad un neu ragor o'r troseddau hyn.

Roedd y ditiad hefyd yn cynnwys tri chyhuddiad amgen, yn honni o droseddau yn cynorthwyo gyda chyflenwi: cyffuriau dosbarth A yn unig, cyffuriau dosbarth A neu B, a chyffuriau dosbarth B yn unig. Dywedodd y llys bos cyfarwyddiadau barnwr yr achos i'r rheithgor, a ofynnodd iddynt ystyried pob cyhuddiad yn ei dro, gan ganiatáu iddynt euogfarnu ar un cyhuddiad yn unig, yn cynrychioli rheolaeth synhwyrol gyda'r bwriad o gyflawni achos teg.

Gan hynny nid yw'n angenrheidiol cynnwys cyhuddiadau a46 ar wahân ar y ditiad ar gyfer pob cyhuddiad a nodir. Fodd bynnag, fellir cynnwys cyhuddiadau amgen, yn yr un modd â'r esiampl.

Cyfranogi mewn gweithgareddau Grŵp Troseddu Cyfundrefnol

Mae Adran 45 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2015 yn creu trosedd o Gyfranogi mewn gweithgareddau Grŵp Troseddu Cyfundrefnol. Gellir gweld Arweiniad Cyfreithiol Gwasanaeth Erllyn y Goron ar ddwyn cyhuddiadau o dan y Ddeddf hon yma.

INSERT LINK

Cyhuddo o Gynllwynio

Mewn achosion ble does dim trosedd gadarnhaol, neu ble fod tystiolaeth annigonol bod D yn cymryd rhan yn y drosedd gadarnhaol, ond bod yna dystiolaeth y gellir dod i'r casgliad ohoni fod yna gytundeb i gyflawni trosedd, gall cyhuddiad o gynllwynio fod yn briodol.

Elfen hanfodol y drosedd o gynllwynio yw cytundeb rhwng dau berson neu fwy i gyflawni gweithred droseddol. Hyd yn oed os nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud er cynnydd y cytundeb, mae'r drosedd o gynllwynio yn gyflawn.

Mae cynllwynion statudol yn cael eu cyhuddo o dan adran 1(1) o Ddeddf Cyfraith Droseddol 1977, a gellir eu rhoi ar brawf ar ddiad yn unig.

Ble mae yna gyhuddiad o gynllwynio, gall tystiolaeth er cynnydd y cytundeb / cydfenter fod yn dderbyniol yn erbyn parti arall i'r fenter: adran 118(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Mae arweiniad pellach ar gynllwynion ar gael yn Arweiniad Cyfreithiol Gwasanaeth Erllyn y Goron ar [Droseddau Cychwynnol](#).

Cwestiwn 4

A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Arweiniad Cyfreithiol ar Atebolrwydd Eilaidd ?